# CYSWLLT Y
# WEITHREDWR



## Annwyl gydweithiwr,

23/05/2022

Mae dathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines wedi hen ddechrau, ac wrth i ni agosáu at benwythnos estynedig gŵyl y banc, mae'n bwysig cofio ychydig o bethau i sicrhau eich bod yn barod a'ch bod chi a'ch anwyliaid yn cadw'n iach.

Mae nifer fawr o ddigwyddiadau ar y gweill ar draws y ddinas a'r ardaloedd cyfagos gan gynnwys Cyngerdd y Jiwbilî yng Nghastell Caerdydd ac amryw o bartïon stryd a dathliadau lleol a fydd yn cael eu cynnal, felly byddwch yn ymwybodol y bydd llawer o ardaloedd yn brysur. Edrychwch ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol gan y byddwn yn rhannu gwybodaeth am gadw'n iach wrth i chi fwynhau'r dathliadau.

Un o'r ffyrdd hawsaf y gallwch gymryd gofal yw drwy sicrhau eich bod yn trefnu eich presgripsiynau rheolaidd ymlaen llaw gan y bydd meddygfeydd ar gau dros wyliau'r banc.

Mae gwyliau banc bob amser yn amser prysur i ni, felly byddwch yn ymwybodol mai dim ond os bydd gennych gyflwr sy'n bygwth bywyd neu aelodau o'r corff y dylech fynd i'r Uned Achosion Brys, ac y bydd yn rhaid i chi aros am gyfnod hirach ar gyfer unrhyw gyflyrau eraill. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf brys, felly os ydych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod yn profi anaf neu salwch dros benwythnos gŵyl y banc, a'ch bod yn meddwl bod angen ei asesu yn yr Uned Achosion Brys, yna ffoniwch 111 yn gyntaf.

Os oes angen i chi gael mynediad at wybodaeth gofal iechyd, cyngor neu gymorth gofal brys, mae 111 ar gael. Gallwch gael mynediad at amrywiaeth o gyngor gofal iechyd a gwybodaeth leol ar wefan GIG 111 Cymru.

Diolch i bawb a fydd yn gweithio dros gyfnod gŵyl y banc i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael ar gyfer y bobl sydd eu hangen. Ac os nad ydych chi'n gweithio, mwynhewch y dathliadau a'r amser gyda theulu a ffrindiau.

Efallai eich bod wedi darllen am y Ganolfan Gymunedol Iechyd y Pelfis ar ein gwefan yr wythnos diwethaf, gwasanaeth cydweithredol newydd sy'n dod ag iechyd, elusennau lleol a diwydiant ynghyd i sefydlu'r ganolfan gyntaf o'i math yng Nghymru. Agorodd y Ganolfan yr wythnos diwethaf ac mae'n gam enfawr ymlaen o ran darparu triniaeth iechyd y pelfis i bobl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mae Canolfan Gymunedol Iechyd y Pelfis wedi'i lleoli yn yr Adran Cleifion Allanol yn Ysbyty'r Barri a bydd yn darparu cymorth, cyngor ac opsiynau triniaeth sy'n canolbwyntio ar y claf ar gyfer rheoli prolaps organau'r pelfis, anymataliaeth a chamweithrediad y coluddyn. Fe'i cefnogir gan

Gydlynydd Gwasanaeth Iechyd y Pelfis, rôl sydd wedi'i sefydlu ym mhob Bwrdd Iechyd ledled Cymru, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.



Yn dilyn etholiadau'r cynghorau lleol yn gynharach y mis hwn, hoffwn yn bersonol longyfarch y cynghorwyr sydd newydd eu hethol ac rwyf innau, a'r tîm Gweithredol yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â chi a chydweithio'n agos â chi i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ein cymunedau lleol a'u gwella'n barhaus.

Dymuniadau gorau,

Abi Harris

Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol

## 1. Dathlu cyflawniadau staff yn ein Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol

Llongyfarchiadau i bawb a wobrwywyd yn y digwyddiad cydnabod staff ffisiotherapi a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, i ddathlu gwaith caled a gwasanaeth ymroddedig staff clinigol BIP Caerdydd a'r Fro dros y 18 mis diwethaf.

Diolch i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro am gefnogi'r digwyddiad hwn a ddyfarnodd ddeg enillydd teilwng.

Dywedodd Emma Cooke, Cyfarwyddwr Therapïau Clinigol: "Hoffwn ddiolch o galon i'n holl staff clinigol am eu hymrwymiad i'n Bwrdd Iechyd, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd iawn a welwyd yn y maes gofal iechyd o ganlyniad i'r pandemig. Heb eu hymdrechion a'u gofal ni fyddem wedi gallu gwneud y gwaith pwysig a wnawn i ofalu am gymunedau a chleifion Caerdydd a'r Fro.

"Llongyfarchiadau diffuant i'n holl enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail, rydych chi i gyd, yn unigol, yn wirioneddol deilwng o'r gwobrau hyn." Gallwch weld crynodeb o gategorïau'r gwobrau, yr enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail yma.

## 2. Darparu Gofal yn y Gymuned

O fewn y gymuned, mae gan nyrsys rôl ddeinamig ac amrywiol, yn darparu gofal yng nghartrefi pobl, mewn lleoliadau cymunedol, meddygfeydd teulu a chlinigau bob dydd. Yn ystod mis Ebrill, mae'r tîm amrywiol o weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi bod yn cefnogi cleifion i sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol, sydd nid yn unig yn galluogi cleifion i aros yng nghysur eu cartrefi eu hunain, ond hefyd yn helpu i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty.

Ym mis Ebrill, gwnaeth ein Tîm Ymateb Acíwt o nyrsys profiadol, sy'n hwyluso'r gwaith o ryddhau cleifion o'r ysbyty neu atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty, gefnogi 13 o gleifion i gael eu rhyddhau'n gynnar.

Yn ystod y mis diwethaf, cynhaliodd ein timau Nyrsio Ardal 16,734 o ymweliadau â chleifion mewn lleoliadau cymunedol gan gyflawni rolau megis gofal clwyfau, gofal diabetig, gofal cathetr, gweinyddu meddyginiaeth a gofal lliniarol ymhlith pethau eraill. Ar hyn o bryd mae nyrsys cymunedol yn cefnogi 3,548 o gleifion ledled Caerdydd a'r Fro i aros yn eu cartrefi eu hunain ac fe wnaeth Aseswyr Nyrsio gefnogi ac adolygu 1,653 o gleifion i sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel a phriodol ar gyfer eu hanghenion mewn lleoliadau cymunedol a chartrefi nyrsio.

Mae Tîm Adnoddau Cymunedol Caerdydd (CRT) a Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (VCRS), sef timau o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol sy'n cefnogi cleifion yn eu cymuned i osgoi arosiadau diangen yn yr ysbyty a derbyn gofal gartref, yn cefnogi 1,032 o gleifion ar hyn o bryd. Drwy gydol mis Ebrill, fe wnaethant helpu 25 o gleifion i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, cefnogi 79 o gleifion i gael eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty a derbyn 242 o gleifion oedd angen cymorth therapi yn y gymuned.

Rydym yn gwerthfawrogi gwaith ein timau cymunedol yn fawr iawn, a hoffem ddiolch i'r timau a'r wardiau sy'n parhau i wneud y mwyaf o'n gwasanaethau cymunedol.

## 3. Wythnos ar ôl i wneud cais i ymuno â Bwrdd Seinio Partneriaeth Genomeg Cymru ar gyfer cleifion a'r cyhoedd

Mae Partneriaeth Genomeg Cymru yn awyddus i recriwtio unigolion sydd ag ystod o brofiadau i ymuno â'n Bwrdd Seinio. Rydym yn gwybod bod y materion sy'n ymwneud â genomeg yn gymhleth a hoffem weithio gydag aelodau o'r cyhoedd, i'n helpu i lunio dyfodol Genomeg.

Ymunwch â'n Bwrdd Seinio am gyfle i helpu i lunio polisïau, llwybrau gofal ac ymchwil a fydd yn effeithio ar bobl â chlefydau prin neu etifeddol, neu'r rhai sydd angen profion genetig fel rhan o'u gofal iechyd.

Llenwch ffurflen Mynegi Diddordeb ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru erbyn 31 Mai 2022.

Edrychwch ar ddisgrifiad llawn y rôl a chael rhagor o wybodaeth ar y wefan yma.

## 4. Dathliadau'r Digwyddiad Llygaid Blynyddol

Ddydd Sadwrn 14 Mai, cynhaliwyd y Digwyddiad Llygaid blynyddol, a daeth y gymuned gofal llygaid ynghyd i ddathlu graddio'r hyfforddeion offthalmoleg, ochr yn ochr â rheolwyr gofal llygaid ac optometryddion. Mr Gwyn Williams, Arweinydd Clinigol Offthalmoleg Cymru, oedd yn cynnal y noson. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Clinigol, Wai Siene Ng, fynychu gyda gweddill y tîm o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys y Rheolwr Cyffredinol Hayley Dixon, y tîm gweinyddol a llawer mwy sy'n ymwneud â'r llwybr gofal llygaid. Rhoddwyd llongyfarchiadau a diolch arbennig i'r Hyfforddwr Offthalmoleg Ymgynghorol Mr Patrick Watts am arwain y cynllun hyfforddi offthalmoleg i Gymru, ac estynnodd bob un o'r hyfforddeion eu diolch iddo.

## 5. Llwyddiant apwyntiadau fideo

Roedd yn syndod darllen dros y dyddiau diwethaf bod apwyntiadau fideo wedi atal dros 200 tunnell o allyriadau $CO_2$ ers iddynt gael eu cyflwyno yn y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2020.

Mae [Gwasanaeth Ymgynghori Rhithwir GIG Cymru] yn galluogi cleifion i fynychu eu hapwyntiad gofal iechyd yn rhithwir, heb orfod gadael cysur eu cartref eu hunain, ac mae mwy na 70,000 o apwyntiadau wedi'u cynnal yn y ffordd hon dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan atal 750,000 milltir o deithio ar gyfer ein cleifion.




Mae'r gwasanaeth wedi dod yn rhan allweddol o'n dull o ddarparu ein gwasanaethau, ac mae'n parhau i fod yn boblogaidd gyda'n cleifion, gyda mwy o ymgynghoriadau fideo yn cael eu mynychu gan gleifion BIP Caerdydd a'r Fro nag yn unman arall yng Nghymru, er gwaethaf poblogaethau mwy o faint mewn ardaloedd eraill.

Mae'n cynnig opsiwn cyfleus, ecogyfeillgar ar gyfer mynychu apwyntiadau, a disgwylir i boblogrwydd y gwasanaeth gynyddu ymhellach eleni gyda chostau tanwydd ar gynnydd.

Rwyf mor falch bod y tîm yn arwain y ffordd gyda'r gwasanaeth hwn, a gobeithio y gallwn, gyda'n gilydd, gynnal y momentwm hwnnw ar gyfer llwyddiant parhaus y gwasanaeth yn y dyfodol.

## 6. Gweithwyr Cymorth Profiad y Claf newydd wedi'u recriwtio yn ystod y pandemig COVID-19

Roedd Tîm Profiad y Claf wedi gallu recriwtio mwy o Weithwyr Cymorth Profiad y Claf i gynorthwyo yn ystod y pandemig COVID-19. Mae hwn yn un o nifer o brosiectau a wnaed yn bosibl drwy gyllid gan NHS Charities Together, ac rydym bellach yn gweithio ar goladu'r prosiectau hyn mewn un lle ar ein gwefan. Darllenwch ragor yma.



## 7. The Dementia Darnings gan Jenni Dutton

Mae Oriel yr Aelwyd yn falch iawn o gyflwyno arddangosfa The Dementia Darnings gan yr artist amlgyfrwng Jenni Dutton. Yn y corff hwn o waith, mae Jenni yn ymateb i ddiagnosis dementia ei mam drwy ddefnyddio pwytho i ail-greu portreadau o'i mam o hen albymau lluniau. Mae'r gwaith celf yn brydferth ac rydym eisoes wedi cael adborth hyfryd gan ein cleifion a'n staff yn YALL. Mae'r arddangosfa wedi teithio'n helaeth o amgylch y DU ac wedi teithio i Ewrop a Tsieina. Dyma fydd y tro cyntaf iddi gael ei dangos yng Nghymru ac mae Oriel yr Aelwyd yn falch o'i chynnal. [Darllenwch ragor yma.]